**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd Nos Lun, Mehefin 9fed 2014 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin L Hughes, Margaret Bowe, Roy Tickle, Mark Young, Shereen Lunt, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Gaynor Morgan Rees, Raymond Bartley, Brian Davies, Colin Hughes.

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler.

Cadeiriwyd Pwyllgorau Cyllid a Materion Cyffredinol gan y Maer y Cyng Rob Parkes yn absenoldeb y cadeirydd y Cyng Raymond Bartley gyda'r Cyng Margaret Bowe yn cadeirio'r Pwyllgor Cynllunio.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Soniodd clerc y dref, gyda chaniatâd y cyfarfod, am absenoldeb hirfaith anffodus y Cyng Philip Stevens oherwydd afiechyd. Gofynnwyd am gyngor, ac yn dal i ddisgwyl, oddi wrth Swyddog Monitro Sir Ddinbych ynglŷn â'r absenoldeb hirfaith. Cytunodd y cyfarfod i'r cyngor barhau i gofnodi ymddiheuriad ar ran y Cyng Stevens tan ddaw'r amser y gellir gwneud penderfyniad.

**30. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Roy Tickle - holl faterion oedd yn berthnasol i Ŵyl Ganol Haf Dinbych.
(2) Cyng Gaynor Wood - holl faterion oedd yn berthnasol i Ŵyl Ganol Haf Dinbych.
(3) Cyng Geraint Williams - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.

## A. <u>Pwyllgor Cynllunio:</u>

**31.** (1) **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.** Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Howell's Prep School, Stryd y Parc
(2) 29, Parc Mytton,
(3) Uned 3 Canolfan Menter, Llwyn Goch, Stâd Ddiwydiannol Colomendy
(4) Palmant cyfagos a Llyfrgell Dinbych
(5) Gwenallt, Stryd y Parc
(6) Isgoed Farm, Ffordd Coppy
(7) 19A, Stryd y Parc
(8) 2, Marcellas Court

Ynglŷn â'r cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws nodwyd fod y cais wedi ei dynnu'n ôl.

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Gwenallt Stryd y Parc, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais ond i fynegi sylw fod yr adeilad o fewn Ardal Cadwraeth Dinbych ac os oedd y cais yn disgyn o fewn polisi y sir ar adeiladau o fewn ardal cadwraeth.

(2) Materion Cynllunio eraill: (a) Nodwyd tair tystysgrif yn caniatáu caniatâd cynllunio.
(b) CSDd - Nodwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd ynglŷn â chyn Storfa Wlân, Lon Goch.
(c) CSDd - Nodwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd ynglŷn â briff datblygu safle hen Ysbyty Gogledd Cymru.
(ch) SP Energy Works - Nodwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd ynglŷn â phrosiect cysylltu

Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru.

(d) Nodwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Michael Lavers ynglŷn â chais cynllunio i adeiladu llwybr teithio amlddefnyddiwr. Cytunwyd ymhellach i hysbysu Mr Lavers fod y cais cynllunio presennol wedi ei dynnu'n ôl a bydd yr e-bost yn cael ei ystyried ymhellach os ail gyflwynir y cais cynllunio.

(dd) Nodwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglŷn â chyngor cynllunio.

**B. <u>Pwyllgor Cyllid:</u>**

**32. Cyfrifon:** 1. Cytunwyd i dalu'r cyfrifon canlynol a dderbyniwyd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Cyng Margaret Bowe – lwfans aelodau 2014/2015 (rhif siec. 005390) | - | £100.00 |
| (2) | Cyng Raymond Bartley - lwfans aelodau 2014/2015 (rhif siec 005391) | - | £100.00 |
| (3) | Cyng Rob Parkes – lwfans aelodau 2014/2015 (rhif siec 005392) | - | £100.00 |
| (4) | CSDd – cyfraniad Neuadd y Dref 2014/2015 (1[af]) (rhif siec 005393) | - | £5,000.00 |
| (5) | Clerc y Dref – costau teithio (Llanelwy) (rhif siec 005394) | - | £6.30 |
| (6) | Zen Internet – darpariaeth ADSL (Mehefin) (rhif siec 005395) | - | £18.37 |
| (7) | Paul Liversidge – clirio llwybrau (Mai) (rhif siec 005396) | - | £165.00 |
| (8) | Canda Copying - costau llungopïwr (rhif siec 005397) | - | £205.96 |

Cyfanswm taliadau: £5,695.63.

2. Nodwyd adroddiad ariannol cyfnod **1.4.13 – 31.5.14**

3. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Nodwyd a chymeradwywyd y rhestr taliadau a wnaed gan glerc y dref/swyddog cyllid rhwng Mai 13eg a'r 9fed o Fehefin 2014 - Cofnod 23(4)(6) yn cyfeirio. (Cyfanswm taliadau £6,368.27).
(2) Dywedodd clerc y dref y derbyniwyd cais oddi wrth grŵp yr archif gymunedol i brynu dau ddisgyrrwr caled allanol i gadw a chynnal ffilmiau a roddwyd i'r archif. Cost gyrrwr allanol 2TB oedd tua £68 & TAW. Cytunwyd i glerc y dref brynu dau yrrwr allanol i'w ddefnyddio gan yr archif gymunedol.

4. <u>Cyfrifon Blynyddol 2013/2014.</u>

Yn y man yma symudodd y cyfarfod i gyngor llawn o dan gadeiryddiaeth y Maer y Cyng Rob Parkes.

**(1) Penderfynwyd cymeradwyo y cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/2014**

(2) <u>Ffurflen Flynyddol 2013 / 2014</u>: (1) Ffurflen flynyddol drafft. Cyflwynodd clerc y dref, yn ôl y rheolau newydd, y ffurflen flynyddol mewn drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14 oedd hefyd yn cynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol. **Penderfynwyd cymeradwyo'r ffurflen mewn modd drafft.** Arwyddwyd y ffurflen drafft gan y cadeirydd a chlerc y dref / swyddog cyllid. Eglurodd clerc y dref y bydd copi o'r ffurflen ynghyd a gwybodaeth arall yn cael ei gyflwyno i'r archwilydd allanol. Yr archwilydd allanol i ystyried y ffurflen drafft ac i gyflwyno unrhyw sylwadau. Y mater wedyn i ddod yn ôl o flaen y cyngor llawn am ystyriaeth bellach.

(3) Ystyriwyd y datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/2014. Cymeradwywyd yr ateb i bob un o'r cwestiynau o fewn y datganiad. **Penderfynwyd cymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol.**

(4) Adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Dosbarthwyd copïau o'r adroddiad ac fe'i hystyriwyd. Cytunwyd i gyfeirio'r adroddiad i'r is bwyllgor Archwilio a Phersonél i'w drafod ac i adrodd yn ôl i'r cyngor.

(5) Cais am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r ffurflen flynyddol. Cyfeiriodd clerc y dref at yr holiadur a gwblhawyd (dosbarthwyd copïau). Ystyriwyd yr ymateb i'r saith cwestiwn ar hugain a **Phenderfynwyd cymeradwyo'r ddogfen.** Arwyddwyd y ddogfen gan y cadeirydd a chlerc y dref.

(6) Cyfeiriodd clerc y dref at lythyr a dderbyniwyd oddi wrth yr archwilydd mewnol yn cadarnhau parhad annibyniaeth. Nodwyd a chymeradwywyd y llythyr.

Yn y man yma symudodd y cyfarfod yn ôl i fodd pwyllgor.

**C. <u>Pwyllgor Materion Cyffredinol</u>:**

**33. Llythyron, E-byst a Hysbysiadau:** (1) Penderfynwyd nodi pum eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bod angen ar y canlynol:

(1) Ystyriwyd cais y Cyng Roy Tickle ar ran Grŵp Gŵyl Ganol Haf Dinbych am ganiatâd i ddefnyddio Gardd Goffa Dr Evan Pierce ar gyfer y gystadleuaeth Boules Blynyddol ar y 15fed o Fehefin 2014. Caniatawyd y cais.

(2) Ystyriwyd cais y Cyng Roy Tickle ar ran Grŵp Gŵyl Ganol Haf Dinbych i gael parcio am ddim yn y dref dydd Sadwrn Mehefin 14eg 2014. Caniatawyd y cais.

(3) Cyfeiriwyd y ceisiadau am gymorthdaliadau a dderbyniwyd oddi wrth (1) Popeth Cymraeg a (2) Sioe Dinbych at yr is-bwyllgor cymorthdaliadau.

(4) Cyfeiriwyd y dogfennau a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru ynglŷn â (1) arolwg Panel Annibynnol Cymru a (2) Papur Gwyn Iechyd Cyhoeddus at yr is bwyllgor archwilio dogfennau am ystyriaeth ac ymateb.

(5) CSDd - Prosiect Cartrefi Gwag. Cytunwyd i wahodd Andrea Fisher y Swyddog Tai ac Adnewyddu Ardal i gyfarfod o'r cyngor tref.

(6) CSDd – Ymgynghoriad Lles Sir Ddinbych. Cytunwyd gan fod yr arolwg yma ar gael ar lein fod yr aelodau, os oeddynt yn dymuno, yn ymateb yn unigol.

(7) CSDd – llythyr oddi wrth Sion Goldsmith ynglŷn â sefydlu gweithgor i drafod rheolaeth Neuadd y Dref yn y dyfodol. Cytunwyd gohirio'r mater er mwyn i glerc y dref ymholi'n bellach.

**34. Cofnodion / Adroddiadau Cyfarfodydd is bwyllgorau'r cyngor.** (1) <u>Archwiliad a Phersonél.</u> Ystyriwyd a chymeradwywyd yn gyffredinol gofnodion cyfarfod diweddar. Cyfeiriodd clerc y dref at faterion penodol o fewn y cofnodion:

(a) <u>Asesiad Risg</u>. Cyfeiriodd clerc y dref ar yr ychwanegiad i'r asesiad risg oedd yn ymdrin â dilyniant a pharhad busnes. **Penderfynwyd cymeradwyo'r ychwanegid ynghyd a'r asesiad risg.**

(b) <u>Asesiad Risg Ariannol</u>. **Penderfynwyd cymeradwyo'r ddogfen fel y cymeradwywyd gan yr is bwyllgor.**

(c) <u>Rhestr Asedau</u>. **Penderfynwyd cymeradwyo'r rhestr oedd yn dangos asedau'r cyngor ar Fawrth 31ain 2014.**

(ch) **Penderfynwyd cymeradwyo'r <u>Datganiad o Amrywiad Arwyddocaol</u> oedd yn mynd gyda'r Ffurflen Flynyddol.**

(d) **Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/2015**
(dd) **Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Arian wrth Gefn y cyngor ynglŷn ag arian a gariwyd ymlaen ar Fawrth 31ain 2014.**

(2) Arweinlyfr Dinbych. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod yr is bwyllgor wedi cyfarfod ac wedi gwneud rhai gwelliannau i'r arweinlyfr a bod cyfarfod pellach i'w drefnu.

**35. Adroddiadau**: (1) Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**36. Apwyntiad aelodau i is bwyllgorau a grwpiau gweithio'r cyngor.**

**37. Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd cyntaf yr is bwyllgorau / grwpiau gweithio:**

**38. Apwyntiad aelodau ar wahanol gymdeithasau ac ati.**

Cymerwyd eitemau 36 - 38 uchod gyda'i gilydd. Cytunwyd am mai ychydig o aelodau oedd yn bresennol, i ohirio ymhellach penderfyniad ar y tri mater tan gyfarfod nesaf y cyngor ar Fehefin 23ain 2014 ac i'r cyfarfod hynny ddechrau am 6.30 o'r gloch.

**39. Materion o Ddiddordeb:** 1. Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau a chytunwyd gweithredu lle bo angen:

(1) Cyn safle Kwik Save - i edrych ar y fynedfa a'r posibilrwydd o ddatblygu'r safle ar sail manwerthant / tai.
(2) Safle Lôn Ganol - yr ymddiriedolwyr yn edrych ar bosibiliadau defnydd ar gyfer y safle.
(3) Stâd Ddiwydiannol Colomendy – angen mwy o le i ehangu a hefyd mynedfa newydd.
(4) Cystadleuaeth Boules blynyddol – y cyngor tref i gynnwys tîm i gystadlu.
(5) Carnifal Dinbych - y cyngor tref i gael presenoldeb ar y cae
(6) Triathlon yn ardal Dinbych ar Fehefin 15fed
(7) Ardal Teras Edgar bellach wedi ei glirio – diolch i GSDd.
(8) Diolchwyd i'r Maer am drefnu noson Mic Agored yn y ddiweddar yn y Guildhall.
(9) Sul Dinesig - Mehefin 22ain. Atgoffwyd yr aelodau i gysylltu â chlerc y dref.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.41 o'r gloch.

Arwyddwyd:...........................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................